Safonau Gwasanaeth – Sut i dalu eich rhent

Datganiad o genhadaeth Tai Ceredigion

“bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol”.

Safon

Mae Tai Ceredigion wedi ymrwymo i’r egwyddor y dylai tenantiaid dalu eu rhent, ac mae wedi ymrwymo hefyd i ddarparu cyngor a chymorth priodol yn gynnar i denantiaid sydd ag ôl-ddyledion rhent.

Talu eich rhent:

- Fel tenant, rydych wedi cytuno i dalu eich rhent ac unrhyw daliadau eraill wythnos ymlaen llaw, gan wneud hynny’n brydlon ac yn rheolaidd.
- Byddwn yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd a chyfleus ag sy’n bosibl i chi dalu eich rhent. Mae’r dulliau talu’n cynnwys Debyd Uniongyrchol, defnyddio cerdyn talu Allpay, talu â siec drwy’r post neu dalu dros y rhyngrwyd.
- Chi sydd i benderfynu a ydych am dalu eich rhent bob wythnos, bob pythefnos, bob pedair wythnos neu bob mis. Pa bynnag ffordd y byddwch yn dewis talu eich rhent, bydd yn rhaid i chi ei dalu ymlaen llaw.
- Bydd rhenti’n cael eu hadolygu ym mis Ebrill bob blwyddyn, a bydd y tenantiaid yn cael rhybudd ysgrifenedig o bedair wythnos.
- Byddwn yn ceisio anfon datganiad rhent wedi’i argraffu at bob un o’n tenantiaid bob tri mis, ar ddiwedd chwarter.
- Mae’n bosibl y byddwch yn byw mewn eiddo y mae tâl gwasanaeth yn berthnasol iddo. Byddai manylion unrhyw dâl gwasanaeth wedi’u cynnwys gyda’ch cytundeb tenantiaeth.

Beth fydd yn digwydd os byddwch yn hwyr yn talu eich rhent?

- Os byddwch yn hwyr yn talu eich rhent, byddwn yn ystyried hynny’n fater difrifol iawn.
- Os ydych yn cael anhawster talu eich rhent, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni ar unwaith. Fel hynny, gallwn geisio datrys y broblem cyn i ôl-ddyledion ddechrau cronni.
- Byddwn yn ceisio rhoi cyngor a chanllawiau i chi os ydych yn cael anhawster gydag arian neu ddyled. Byddwn yn ceisio eich helpu i wneud cais am fudd-daliadau a’ch cyfeirio at asiantaethau cynghori arbenigol.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn ymweld â chi yn eich cartref i drafod eich cyfrif rhent, a byddwn yn ceisio gwneud trefniadau ad-dalu rhesymol a realistig.
- Fodd bynnag, os na fyddwch yn glynu wrth y trefniant hwn ac os byddwch yn cymryd camau bwriadol i wrthod talu eich rhent, byddwn yn cymryd camau cyfreithiol a allai olygu eich bod yn cael eich taflu allan o’ch cartref. Fel rheol, byddwn yn dechrau cymryd camau cyfreithiol pan fydd 4 wythnos neu ragor o rent yn ddyledus.

Mae copi o’n Polisi a’n Gweithdrefn ar gyfer Ôl-ddyledion Rhent ar gael o ofyn amdano, trwy ffonio 0345 606 7654 neu ebostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu’n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd